# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 23 Medi 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, W.F.Griffiths, J.Hale, M.Harvey, S.K.Hunt, J.Hurley, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, E.V.Latham, A.Llewelyn, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, A.Evans, C.Furlow-Harris, R.Headon, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, A.Manchipp, N.Pearce, S.Phillips, M.Shaw a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Er mawr ofid iddo, dywedodd y Maer wrth yr Aelodau am farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd J Dinham, a oedd wedi cynrychioli Ward Aberafan.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

## 2. DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR BOD HYN YN ADDAS: BLWYDDYN DDINESIG 2020/2021

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi 2020 fel cofnod cywir.

## 3. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldebau yr adroddiad uchod, a gyflwynwyd i'r cyngor gan y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a gynhwysir fel atodiad i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a rhoi awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y cyngor yn sylweddol.

## 4. NEWIDIADAU I AELODAETH PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

**PENDERFYNWYD:** Y bydd yr Aelodau canlynol yn llenwi'r swyddi gwag ar bwyllgorau a chyrff allanol:

Pwyllgor Craffu'r Cabinet - Y Cynghorydd D Keogh

Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant – Y Cynghorydd R Wood

Pwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg – Y Cynghorydd C Jones

Pwyllgor Archwilio – Y Cynghorydd R Taylor

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Y Cynghorydd A J Taylor

Panel Magu Plant Corfforaethol – Y Cynghorydd O Davies

Grŵp Partneriaeth Safonau Ysgolion – Y Cynghorydd M Protheroe a'r Cynghorydd O Davies (dirprwy)

Cyngor Llyfrau Cymru – Y Cynghorydd R Mizen

Grŵp Ymgynghorol ar y Cyd Tata Steel – Y Cynghorydd R Mizen

5. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 6 isod, cytunodd y Maer y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

6. **COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y nifer cynyddol o achosion COVID-19 yn ne Cymru. Nodwyd nad oedd Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd yn un o ardaloedd pryder yr awdurdodau lleol, ond gyda rhai awdurdodau lleol cyfagos dan gyfyngiadau lleol roedd yn debygol iawn y byddai'r Fwrdeistref Sirol hon yn cael ei heffeithio hefyd. O ganlyniad, gall staff gael eu secondio unwaith eto i wahanol feysydd gwaith, er enghraifft y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu. Gofynnwyd i'r aelodau felly i atgyfnerthu'r rhagofalon diogelwch sydd eisoes mewn grym a hefyd reoli disgwyliadau preswylwyr o ran lefel rhai gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol/brys. Roedd yn bwysig pwysleisio bod y DU yn dal i fod yng ngham ymateb y pandemig.

Roedd problemau mewn perthynas â'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, yn enwedig yr amser a gymerwyd i gael prawf a hefyd i gael y canlyniadau.

Roedd yr aelodau'n cefnogi'n llawn yr angen i reoli disgwyliadau preswylwyr yn y dyfodol ac atgyfnerthu'r rhagofalon a'r cyfyngiadau diogelwch sydd ar waith.

## 7. **YMDDEOLIAD**

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor y byddai Mrs Annette Manchipp, Uwch-Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd, yn ei fynychu oherwydd ei hymddeoliad arfaethedig. Talodd yr Arweinydd deyrnged iddi hi a’i chyfraniad i'r broses ddemocrataidd, ers 1984, yn yr awdurdod lleol hwn ac awdurdodau lleol blaenorol a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddi. Cefnogwyd hyn gan yr Aelodau. Ymatebodd Mrs Manchipp a dymunodd yn dda i'r awdurdod, yr aelodau a'r swyddogion ar gyfer y dyfodol.

**CHAIRPERSON**